

# Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru Ymateb Melin Drafod



## 1. Cyflwyniad

1.1. Cred Melin Drafod fod annibyniaeth yn gwestiwn sy'n mynd i'n hwynebu fel cenedl yn ystod y blynyddoedd i ddod. Ni yw'r unig felin drafod sy'n edrych ar y llwybr at, a'r cwestiynau polisi sy'n codi yn sgîl, annibyniaeth i Gymru.

1.2. Sefydlwyd ein melin drafod yn 2021 er mwyn cefnogi, hwyluso a bod yn gyfaill beirniadol i'r mudiad annibyniaeth ar lawr gwlad. Nid yw'r Felin Drafod yn perthyn i'r un blaid wleidyddol. Rydym yn canolbwyntio ar roi sylw manwl i'r cwestiynau sy'n codi'n sgîl y gefnogaeth gynyddol i annibyniaeth.

1.3. Sut i hwyluso annibyniaeth flaengar, nid annibyniaeth er lles annibyniaeth yn unig, yw ein blaenoriaeth. Rydym yn trin a thrafod datrysiadau i argyfyngau mawr ein hoes – o newid hinsawdd a lleiafrifoli ieithoedd i warth tlodi a hiliaeth – yma ac o amgylch y byd. Mae gwir angen paratoi'n drylwyr ar gyfer Cymru annibynnol: bydd y cwestiwn yn wynebu Cymru'n hwyr neu'n hwyrach.

## 2. Sylwadau Cyffredinol

### 2.1. Credwn fod angen brys i'r Comisiwn Cyfansoddiadol, ar ran Llywodraeth Cymru, lunio cynllun ar gyfer, a llwybr ymarferol tuag at, annibyniaeth i Gymru.

2.1.1. Credwn fod annibyniaeth i Gymru yn ganlyniad anochel diwedd prosiect ymerodraethol Prydain. O'r persbectif hanesyddol hwn, mae ail-uno ynys Iwerddon ac annibyniaeth i'r Alban ac i Gymru yn anochel gan eu bod yn wleidydd sy'n rhan o wladwriaeth sy'n dod i ben. Gyda'r datblygiadau yn yr Alban ac Iwerddon, mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i fod yn barod i'n gwlad fynd yn annibynnol. Nid yw pobl Cymru wedi cydsynio i fod yn rhan o'r wladwriaeth Brydeinig, yn enwedig un heb Gogledd Iwerddon neu'r Alban. Yn hynny o beth, nid mater o ddewis neu agenda o blaid annibyniaeth i Gymru fyddai paratoi ar ei chyfer, ond mater o gyfrifoldeb sylfaenol tuag at bobl Cymru i fod yn barod am y newidiadau sydd yn amlwg ar droed yn yr ynysoedd hyn.

2.1.2. Dylid nodi bod prosiect ymerodraethol Prydain yn ymdrech gwbl anghyfiawn a ecsbloitiol. Ni ellir gwadu rhan Cymru yn y prosiect hwnnw a'r erchyllterau a gyflawnwyd yn ei henw. Wrth inni lunio'r Gymru rydd newydd, felly mae cyfrifoldeb

moesol arnom ddysgu o wersi ein gorffennol ac o brofiad gwledydd eraill. Fel melin drafod, nid ydym ni ddim yn cuddio'r ffaith ein bod am weld y dewisiadau hynny yn rhai blaengar sy'n dilyn yr amryw draddodiadau chwith-radical sydd â gwreiddiau hir yn ein cymunedau ledled y wlad. Mae newid cyfansoddiadol yn gofyn inni fel dinasyddion wneud penderfyniadau am y math o gymdeithas rydym yn dymuno byw ynddi. Nawr yw'r amser inni drin a thrafod yr hyn sy'n bosib, yn rhydd o hen strwythurau San Steffan, yn rhydd yn y Gymru newydd.

### **2.3. Yr hawl i Gymru gynnal refferendwm ar annibyniaeth heb orfod ceisio am ganiatâd Lywodraeth Prydain.**

2.3.1. Credwn fod hawl sylfaenol pobl Cymru i benderfynu eu statws cyfansoddiadol eu hunain. Yn nhermau gwaith eich Comisiwn, galwn felly am yr hawl i Gymru, drwy ei Senedd etholedig, benderfynu a ddylai fod yn wlad annibynnol ai peidio, a hynny heb ymyrraeth gan San Steffan.

2.3.2. Dylai fod proses a mecanwaith eglur fydd yn caniatáu i Gymru gynnal refferendwm ar annibyniaeth. Dylai amseriad a manylion cysylltiedig y bleidlais honno fod yn faterion i bobl Cymru a'u Senedd benderfynu arnyn nhw, nid San Steffan. Rydyn ni wedi gweld canlyniadau difrifol yn deillio o ddiffyg eglurder a hawliau is-wladwriaethau fel Catalwnia sydd mewn sefyllfa debyg. Mae perygl y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yma os nad yw Goruchaf Lys y Deyrnas Gyfunol, yn ddiweddarach eleni, yn amddiffyn hawliau sylfaenol yr Alban i gynnal refferendwm yn unol â'r mwyafrif o blaid hynny yn ei deddfwrfa. Dylech chi fel Comisiwn felly ddatgan yn glir y dylai mwyafrif yn Senedd Cymru fod â'r grym dilyffethair i gynnal refferendwm ar annibyniaeth i Gymru.

### **2.4. Yn absenoldeb tystiolaeth bod eich Comisiwn yn mynd i baratoi cynllun manwl i Gymru fynd yn annibynnol, bydd Melin Drafod yn cydweithio â mudiadau blaengar eraill er mwyn llunio un.**

2.4.1. Pryderwn nad yw'ch Comisiwn Cyfansoddiadol gyda bwriad clir i baratoi ar gyfer y digwyddiadau cyfansoddiadol sydd wedi, ac ar fin, digwydd i Gymru. Yn wyneb Brexit, paratodau ar gyfer refferendwm yn yr Alban a'r mwyafrif cyntaf yn Senedd Gogledd Iwerddon dros ail-uno ynys Iwerddon, byddai'n anghyfrifol o ran gwarchod a hybu buddiannau pobl Cymru i beidio â pharatoi cynllun ar gyfer sicrhau y gallwn ni gyd-greu gwladwriaeth annibynnol flaengar i Gymru. Oherwydd y diffyg tystiolaeth glir y bydd eich Comisiwn Cyfansoddiadol yn ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn, rydym yn gweithio ar y cyd â mudiadau eraill i lunio un ein hunain. Bydd y papurau cyntaf, a fydd yn ffrwyth y cydweithio hwn, yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf. Rydym yn estyn

gwahoddiad i'r Comisiwn dderbyn tystiolaeth lafar gan yr awduron wedi iddynt gael eu cyhoeddi.

### **3. Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

#### **3.1. Beth sy'n bwysig i chi o ran sut y caiff Cymru ei rhedeg?**

Mae angen i hunan-benderfyniad fod yn gwbl ganolog i'r egwyddorion: dyna pam mae hi'n hanfodol i'ch Comisiwn wneud y canlynol:

- (i) gosod proses a mecanwaith fyddai'n galluogi i fwyafrif syml yn Senedd Cymru gynnal refferendwm, pleidlais, neu ddull democrataidd arall, o benderfynu a ddylai Cymru fod yn wlad annibynnol ai peidio; a
- (ii) llunio, ar frys, cynllun ymarferol a blaengar er mwyn i bobl Cymru allu dewis mynd yn annibynnol o fewn y blynyddoedd nesaf

#### **3.2. Yn eich barn chi, beth ddylai blaenoriaethau y Comisiwn fod?**

Gweler ateb 3.1.

#### **3. Wrth ystyried sut y caiff Cymru ei llywodraethu, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, beth yw cryfderau'r drefn bresennol, pa agweddau sy'n fwyaf gwerthfawr i chi ac yr hoffech eu hamddiffyn? A allwch roi enghreifftiau?**

Mae Senedd Cymru yn dangos arwyddion o ddatblygu democratiaeth fwy cyfranogol ei naws e.e. ymwneud cymunedol a mesurau preifat sy'n deillio o ddeisebau. Mae angen adeiladu ar yr elfennau hynny, gan roi rhagor o gyfleoedd a grymoedd cyfrannu i ddinasyddion, cymunedau a chynrychiolwyr gweithwyr. Byddai defnydd o gynulliadau'r dinasyddion yn un ffordd o wneud ein democratiaeth yn fwy cyfranogol.

#### **3.4. A oes unrhyw broblemau gyda'r drefn bresennol? Os oes, sut y gellid mynd i'r afael â nhw? Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda.**

Mae gwladwriaeth y Deyrnas Gyfunol yn un rhyfelgar, hyper-gyfalafol a hegemonaid. Nid hap a damwain mae'r sefyllfa hon fel y mae, ond canlyniad bwriadol y Sefydliad Prydain a'r dosbarth uwch/cyfalafol.

Oherwydd y Deyrnas Gyfunol:

- mae un ym mhob tri o blant Cymru yn byw mewn tloidi;
- mae gweithwyr yn gweithio'n hirach ac â llai o hawliau na gwledydd eraill Ewrop;

- mae unigolion o gefndir Du saith gwaith yn fwy tebygol o gael eu chwilio gan yr heddlu na'r rheini sydd o grŵp ethnig gwyn;
- mae un ym mhob tri o garcharorion yn bobl gyda chaethiwed ddifrifol i gyffuriau, mae hanner llofruddiaethau a hanner troseddau meddiannu yn gysylltiedig â chyffuriau, ac mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ar eu lefel uchaf erioed;
- mae Cymru yn dioddef goblygiadau difrifol enw drwg Llywodraeth Prydain ar y llwyfan rhyngwladol; ac
- mae'r amgylchedd gyfreithiol a llywodraethol sy'n wynebu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn erchyll ac anfoesol.

**3.5. Wrth ystyried Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru (eich cyngor lleol), beth yw eich barn ynglŷn â'r cydbwysedd pŵer a chyfrifoldeb rhwng y tri math o lywodraeth – a yw'n iawn ar y cyfan, neu a ddylai newid, ac os felly, sut? Er enghaifft, pwy ddylai gael mwy o bŵer, neu lai?**

Ni ddylai Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol fodoli. Wedi i Gymru adael Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Gyfunol, dylai pwerau gael eu dosrannu rhwng Llywodraeth Cymru a chymunedau lleol Cymru ar ffurf confederal, mewn modd sy'n gweddu â thraddodiad brogarwch balch cymunedau Cymru.

**6. Fel gwlad ac uned wleidyddol benodol, sut ddylai Cymru gael ei llywodraethu yn y dyfodol?**

Dylai Cymru fod yn wlad annibynnol.

**7. Drwyddi draw, beth sy'n fwyaf pwysig i chi am sut y dylid llywodraethu Cymru yn y dyfodol? A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym?**

Noder y sylwadau cyffredinol yn adran 2 uchod.

**8. Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, byddem yn croesawu eich barn ar sut y gallai'r ffurfiau llywodraethu presennol, ac unrhyw gynigion i newid ffurfiau llywodraethu yn y dyfodol, effeithio ar y Gymraeg.**

Fel iaith unigryw Cymru, dylai'r Gymraeg fod â statws gyfreithiol arbennig fel priod iaith Cymru a dod yn gyfrwng iaith holl addysg a gweinyddiaeth Cymru. Mae systemau, gwaddol a strwythurau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, gan gynnwys y gwasanaeth sifil Prydeinig, yn gweithio yn erbyn gwireddu'r weledigaeth honno.

Pwyllgor Cenedlaethol Melin Drafod, Gorffennaf 2022  
melindrafod.cymru